

Profion anadlu

Profion Her Bronciol



Beth yw prawf her bronciol?

Mae prawf her bronciol yn mesur pa mor sensitif yw'r llwybrau anadlu yn eich ysgyfaint. Caiff ei ddefnyddio i helpu wneud diagnosis mewn pobl all fod ag asthma.

Weithiau, caiff y prawf her bronciol ei alw'n brawf pryfocio'r llwybr anadlu. Mae'n golygu anadlu [i mewn] dos gynyddol fwy o feddyginiaeth sy'n gallu llidio (irritate) y llwybrau anadlu a'u hachosi i gulhau. Bydd dos llawer is o'r feddyginiaeth hon yn effeithio ar bobl sydd ag ysgyfaint sensitif, o gymharu â phobl sydd ag ysgyfaint iach. Gwneir y prawf yn ofalus i sicrhau ei fod yn ddiogel.

Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?

Gall prawf her bronciol helpu eich gweithiwr gofal iechyd i ddeall ai llwybrau anadlu sensitif sy'n achosi eich symptomau, neu ddim. Gellir ei ddefnyddio os ydych chi wedi cael **sbirometreg (blf.org.uk/support-for-you/breathing-tests/spirometry-and-reversibility)** a phroffion **FeNO (blf.org.uk/support-for-you/breathing-tests/exhaled-nitric-oxide-test)** ble nad yw'r meddygon yn dal yn siŵr a oes gennych chi asthma. Os yw eich llwybrau anadlu yn fwy adweithiol na'r arfer, gall hyn awgrymu asthma.

Sut alla'i baratoi am y prawf her bronciol?

Efallai y cewch bamffled, neu gyfarwyddiadau, neu lythyr apwyntiad. Darllenwch unrhyw wybodaeth yn ofalus, oherwydd bydd gofyn i chi beidio â chymryd rhai o'ch anadlwyr, neu eich anadlwyr i gyd, cyn y prawf.

Beth sy'n digwydd yn ystod prawf her bronciol?

Bydd prawf her bronciol yn cael ei wneud yn yr ysbyty, ond peidiwch â phoeni, ni fydd angen i chi aros dros nos. Mae'n ceisio cynhyrchu'r un symptomau a'r un newidiadau yn eich ysgyfaint â'r rheiny sy'n digwydd efo asthma. Bydd effeithiau'r feddyginiaeth a gewch chi yn ystod y prawf, yn cael eu monitro'n effeithiol.

Cyn i'r prawf ddechrau, bydd gofyn i chi wneud rhywfaint o broffion anadlu syml, gan gynnwys sbirometreg. Fel hyn, bydd modd gweld sut mae eich ysgyfaint yn gweithio cyn dechrau'r prawf. Os bydd y canlyniadau yn iawn, yna cewch wneud y prawf her bronciol.

Gofynnir i chi anadlu dos gynyddol o feddyginiaeth o'r enw **asiant pryfocio**. Bydd yn achosi adwaith yn eich llwybrau anadlu. Byddwch yn cymryd y feddyginiaeth ar ffurf tARTH erosol neu bowdr sych. Mae hyn yn dechrau gyda dos isel iawn ac yna cewch fwy a mwy, fesul dipyn. Rhwng pob dos, bydd eich anadlu yn cael ei brofi eto, i weld a oes unrhyw newidiadau sylweddol. Os bydd newid sylweddol yn digwydd, dyna ddiwedd y prawf. Cewch feddyginiaeth er mwyn dod â'ch mesuriadau anadlu yn ôl i normal.

Mathau o brawf her bronciol

Mae tri math o brawf her bronciol, sy'n defnyddio gwahanol asiantau pryfocio:

- Prawf her metacolin
- Prawf her histamin
- Prawf her manitol.

Gall y tri math o brawf ddweud a oes gennych asthma neu beidio.

Beth mae'r canlyniadau yn ei olygu?

Os bydd eich anadlu yn gwaethgu yn sydyn, mae hyn yn awgrymu bod eich llwybrau anadlu yn sensitif iawn. Bydd diagnosis o asthma yn fwy tebygol. Gall eich meddyg benderfynu pa fath o driniaeth sydd ar gael i chi.

Cysylltwch â ni er mwyn darganfod cymorth yn agos i chi.

Llinell gymorth: 03000 030 555

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb-5yh

Ni fydd galw ein llinell gymorth fyth yn costio mwy na galwad lleol ac mae'r galwad fel arfer yn rhad ac am ddim, hyd yn oed ar ffôn symudol.

helpline@blf.org.uk

blf.org.uk

Cod: BK17 **Fersiwn:** 3

blf.org.uk/breathing-tests

Adolygiad diwethaf: Ionawr 2020

Adolygiad nesaf: Ionawr 2020

Rydym ni'n gwerthfawrogi adborth ar ein gwybodaeth. Er mwyn mynegi eich barn, ac am y fersiwn diweddaraf o'r wybodaeth hon a chyfeirnodau, galwch y llinell gymorth neu ymwelwch â blf.org.uk